## PENNOD 7

### PWYLLGORAU LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL AC ARCHWILIO

**148 Ailenwi pwyllgorau archwilio**

(1) Yn adran 81 o Fesur 2011 (awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau archwilio), yn is-adran (1), yn lle "("pwyllgor archwilio")" rhodder "("pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio")".

(2) Mae Atodlen 9 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Fesur 2011 sy'n ymwneud ag ailenwi pwyllgorau archwilio.

**149 Swyddogaethau pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio**

(1) Ar ôl adran 81 o Fesur 2011 mewnosoder—

**"81A Darpariaeth bellach ynghylch swyddogaethau pwyllgorau**

(1) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan adran 81(1) rhaid i bwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio awdurdod lleol asesu, yn benodol—

(a) gallu'r awdurdod i gydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2017;

(b) gallu'r awdurdod i wneud cynnydd o ran y blaenoriaethau a nodir yn y datganiad sydd wedi ei gynnwys yn ei gynllun corfforaethol o dan adran 112(2) o'r Ddeddf honno;

(c) y trefniadau a wnaed gan yr awdurdod—

(i) o ran hunanasesiadau o dan adran 116 o'r Ddeddf honno;

(ii) o dan adran 118 o'r Ddeddf honno (asesiadau gan gymheiriaid), a

(d) gallu'r awdurdod lleol i ymdrin yn effeithiol â chwynion.

(2) Rhaid i'r pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio adrodd i'r awdurdod lleol ar asesiad o dan is-adran (1).

(3) Mae gan bwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio hefyd swyddogaethau o dan—

(a) adran 117 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2017 (adroddiadau hunanasesu);

(b) adran 121 o'r Ddeddf honno (ymatebion i adroddiadau ar asesiadau gan gymheiriaid);

(c) adran 126 o'r Ddeddf honno (ymatebion i adroddiadau ar asesiadau cyfun);

(d) adran 134 o'r Ddeddf honno (ymatebion i adroddiadau ar adolygiad llywodraethu)."

**150 Aelodaeth pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio**

(1) Mae adran 82 o Fesur 2011 (aelodaeth) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2)—

(a) ym mharagraff (a) hepgorer y geiriau "o leiaf";

(b) yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) bod un rhan o dair o aelodau'r pwyllgor hwnnw yn bersonau lleyg;".

(3) Ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(5A) Mae pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio i benodi—

(a) aelod o'r pwyllgor yn gadeirydd arno ("cadeirydd y pwyllgor"), a

(b) aelod o'r pwyllgor yn ddirprwy i gadeirydd y pwyllgor ("yr is-gadeirydd").

(5B) Rhaid i'r aelod a benodir yn gadeirydd y pwyllgor fod yn berson lleyg.

(5C) Ni chaiff yr aelod a benodir yn is-gadeirydd fod yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol."

(4) Hepgorer is-adran (6).

**151 Ystyr person lleyg**

Yn adran 87 o Fesur 2011 (dehongli), hepgorer y diffiniad o "aelod lleyg" a mewnosoder —

"ystyr "person lleyg" ("*lay person*") yw person—

(a) nad yw'n aelod nac yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol,

(b) nad yw, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o ddeuddeg mis sy'n dod i ben â'r dyddiad y penodir y person hwnnw, wedi bod yn aelod nac yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol, ac

(c) nad yw'n briod nac yn bartner sifil i aelod na swyddog o unrhyw awdurdod lleol.".

**152 Trafodion etc.**

(1) Mae adran 83 o Fesur 2011 (trafodion) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle is-adrannau (1) a (2) rhodder—

"(1) Mae cyfarfod o bwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio i'w gadeirio—

(a) gan gadeirydd y pwyllgor, neu

(b) os yw cadeirydd y pwyllgor yn absennol, gan yr is-gadeirydd.

(2) Os yw cadeirydd y pwyllgor a'r is-gadeirydd ill dau yn absennol caiff y pwyllgor benodi aelod arall o'r pwyllgor (na chaiff fod yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol) i gadeirio'r cyfarfod."

(3) Hepgorer is-adran (8).